

LOWE, WALTER BEZANT (1854 - 1928), hynafiaethydd

Enw: Walter Bezant Lowe
Dyddiad geni: 1854
Dyddiad marw: 1928
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hynafiaethydd
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Islington ar y 3ydd o Ionawr 1854; aeth i ysgol Rugby (ar derfyn ei yrfa yno, yr oedd yn 'ben yr ysgol') ac i Goleg S. Ioan yng Nghaergrawnt, lle y graddiodd yn 1877 gydag anrhydedd yn y dosbarth blaenaf (1876) mewn gwyddoniaeth - cemeg yn arbennig. O 1877 hyd 1879 bu'n un o athrawon y tywysog Siôr (Siôr V) a'i frawd hynaf, ar fwrdd y llong *Britannia*. Yn ddiweddarach, bu ganddo ysgol breifat yn Fareham. Yn 1904, ymneilltuodd i fyw yn Cae'r Carw, Llanfairfechan, ac yno datblygodd ddiddordeb a gweithgarwch mawr yn hanes a hynafiaethau Gwynedd : yr oedd yn un o aelodau bore'r ' Llandudno Field Club,' a bu am flynyddoedd lawer yn olygydd ei Drafodion; yr oedd hefyd yn aelod o Gymdeithas Hynafiaethol Cymru, a chyfrannodd ysgrifau (megis ' The Price Families of Plas Iolyn and Gilar,' 1912) i *Archæologia Cambrensis* Mwy hysbys yw'r rhes o lyfrau a gyhoeddodd ar ei draul ei hunan, yn enwedig *The Heart of Northern Wales*; ei fwriad ar y cychwyn (1911) oedd dwyn allan argraffiad diwygiedig o *History of Aberconwy* [Robert Williams](#), ond gwelodd na thyciai hynny, a thyfodd y gwaith yn llyfr dwy gyfrol (1912 a 1927) yn ymdrin â chylch llawer helaethach. Heblaw'r llyfr hwn, cyhoeddodd Lowe adargraffiad (1906) o *Survey of Penmaenmawr*, [John Wynn](#) o Wydir; *Abbeys and Convents of the Vale of Conway*, 1912, gyda Thomas Elias; *Llansannan*, 1915; ac amryw deithlyfrau a mapiau. Eisoes cyn ymddangosiad yr ail gyfrol o'r *Heart of Northern Wales* yr oedd ei iechyd wedi torri, ac yntau wedi symud (1926) i Fangor, lle y bu farw 7 Mai 1928, yn 72 oed.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Ysgrifau coffa yn *Archæologia Cambrensis* a'r *Proceedings of the Llandudno and District Field Club* (Llanfairfechan 1906-1953), 1928

Venn, *Alumni Cantabrigienses*

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734555](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

